# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Mehefin 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Beca Brown |
| **Swyddog Cyswllt:** | Debbie A W Jones |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 32489 |
| **Teitl yr Eitem:** | Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad Papur Gwyn – Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg, Llywodraeth Cymru.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Bapur Gwyn ar gyfer y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig. Mae angen penderfynu ar ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.

### 3. CEFNDIR

3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei Raglen Lywodraethu, ac yn y Cytundeb Cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg yn ystod tymor presennol y Senedd yma. Yn ôl Llywodraeth Cymru, caiff y cynigion yn y Papur Gwyn ar gyfer y Bil Addysg Gymraeg eu cyflwyno yng nghyd-destun yr her sylweddol y mae strategaeth *Cymraeg 2050*, a'r targed o filiwn o siaradwyr yn ei osod. Cred Llywodraeth Cymru fod hyn yn galw am newidiadau trawsnewidiol i'r ffordd yr ydym yn meddwl am y Gymraeg a rôl addysg oddi fewn i hynny. Dyma linc i'r ddogfen ymgynghori: [Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg | LLYW.CYMRU]

3.2 Bwriad y cynigion yn y Papur Gwyn hwn yw gofyn am farn ynghylch cynigion ar gyfer y Bil. Mewn rhai mannau gwneir cynigion y gellir eu gwireddu heb ddeddfu. Maent wedi eu cynnwys yn y Papur gan eu bod yn greiddiol i'r cynigion deddfwriaethol yn ôl Llywodraeth Cymru. Rhennir y Papur yn benodau, a gyda rhai eithriadau, mae'r prif gynigion yn y Papur yn ymwneud â'r system addysg statudol (3 i 16 oed), ond pwysig yw nodi bod gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran dysgu a chaffael y Gymraeg yn un

gydol oes:

- Pennod 1: Gwneud y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged statudol a gwneud darpariaeth ynghylch deilliant ieithyddol i ddysgwyr drwy'r system addysg.
- Pennod 2: Continwwm sgiliau Cymraeg gydol oes.
- Pennod 3: Sefydlu cyfundrefn statudol i gategoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith a chreu mecanwaith i symud ysgolion i gategori uwch.
- Pennod 4: Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg.
- Pennod 5: Cynllunio'r Gymraeg mewn addysg mewn awdurdodau lleol.
- Pennod 6: Dyletswyddau ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol.
- Pennod 7: Cefnogaeth i wireddu amcanion y Bil.

3.3 Yn naturiol, mae'r dyheadau a'r deilliannau a nodir yn y cynigion yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol lefel uchel yn ei holl amrywiaeth, a bydd yn ofynnol perthnasu'r darlun a'r dyheadau cenedlaethol yma i sefyllfa leol pob Awdurdod. Yn wir, ceir amrywiaeth sylweddol o safbwynt darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru, amrywiaeth yn sefyllfa ddemograffeg y Gymraeg yn y gymuned ar draws Cymru, ynghyd â'r heriau amrywiol o safbwynt y gweithlu addysg. Yn sgil hynny, pwysleisir y bydd pob awdurdod ar ei thaith unigryw ei hun tuag at gynnal a thyfu addysg cyfrwng Cymraeg.

3.4 Yn Atodiad 1, ceir ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg sydd yn nodi cefnogaeth gyffredinol i gyfeiriad cenedlaethol Llywodraeth Cymru o safbwynt deddfu ym maes addysg Gymraeg.

3.5 Yn yr ymateb, cydnabyddir nad oes modd i'r cyfeiriad cenedlaethol hwn, pa mor glodwiw ydyw, adlewyrchu sefyllfa'r Gymraeg yn lleol a dyheadau lleol ar gyfer cynnal a chynyddu addysg Gymraeg. Felly, er yn gefnogol i amcanion y cynigion yn y Papur, yn yr ymateb cydnabyddir fod gan Gyngor Gwynedd uchelgais ar gyfer pob disgybl sydd yn mynd y tu hwnt i weledigaeth Llywodraeth Cymru, a hynny drwy gyfrwng Polisi Iaith Addysg y sir sydd wedi profi llwyddiant ysgubol dros y degawdau i sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg drwy'r gyfundrefn addysg a dod yn hyfedr ddwyieithog erbyn 11 oed. Yn wir, yng Ngwynedd mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb, a thrwy gyfrwng Polisi Iaith Addysg y sir rhoddir y cyfle i bob plentyn feithrin sgiliau yn y Gymraeg. Mae Polisi Iaith Addysg Gwynedd felly yn esiampl i weddill Cymru, ac mae'n un y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei hyrwyddo yn genedlaethol er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

3.6 Cydnabyddir hefyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad yr angen am fwy o adnoddau ar awdurdodau lleol yn uniongyrchol i allu gweithredu yn fwy effeithiol, yn fwy penodol, ac yn fwy amserol er mwyn sicrhau y bydd modd gwireddu'r weledigaeth o gynnal a thyfu addysg Gymraeg ar y raddfa ddisgwyliedig ar draws Cymru er mwyn cyflawni'r nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

3.7 Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o newid sydd yn gofyn am weithredu ar sawl lefel, gan gydnabod fod gan ddeddfwriaeth gyfraniad pwysig i'w chwarae wrth osod y seiliau ar gyfer gwireddu'r newid. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod mai un rhan o'r darlun yn unig yw deddfwriaeth, a bydd gan weithgareddau ac ymyraethau eraill megis polisïau ar draws y maes addysg, ariannu, ymgysylltu a newid ymddygiad gyfraniad allweddol i'w chwarae hefyd.

3.8 Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau sy'n bodoli o ran:

- yr angen i dyfu gweithlu addysg sydd â'r sgiliau iaith angenrheidiol i alluogi ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a gwella deilliannau ieithyddol dysgwyr ym mhob ysgol
- rhagamcanion poblogaeth plant sy'n debygol o fod yn statig dros y degawdau nesaf
- ffactorau lleol gan gynnwys natur ieithyddol amrywiol, dwysedd poblogaeth, daearyddiaeth a mannau cychwyn gwahanol o ran argaeledd a graddfeydd twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg
- sgiliau Cymraeg dysgwyr nad ydynt mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

3.9 Er mwyn llwyddo, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig camau sy'n ymateb i'r heriau uchod mewn dull un-system, sy'n cydnabod mai disgyblion heddiw fydd siaradwyr Cymraeg, athrawon, a gweithlu Cymraeg yfory. Mae Llywodraeth Cymru am i'r system addysg gofleidio'r Gymraeg fel iaith sy'n perthyn i holl ddisgyblion Cymru. Felly cynigir yn y Papur gamau fydd yn lleihau'r bwlch o ran deilliannau ieithyddol:

- Cynigir fod angen ffocws clir a phendant ar ddeilliannau ieithyddol disgyblion ac mai hynny ddylai fod yn brif egwyddor y cynigion ar gyfer y Bil. Bydd gwneud hynny'n rhoi neges eglur i'r holl gyfundrefn addysg, ac ysgolion ymhob categori ieithyddol o'r angen i wella deilliannau ieithyddol pob disgybl.
- Cynigir mai'r deilliant ieithyddol sydd wrth wraidd uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer y system addysg erbyn 2050 yw fod pob disgybl yn gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus. Cynigir mai'r nod ar gyfer hynny fydd, fel isafswm, lefel sy'n gyfystyr â lefel B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR). (Continwwm sgiliau iaith rhyngwladol yw'r CEFR. Cyflwynir cynigion yn y papur hwn ynghylch creu continwwm sgiliau ar gyfer y Gymraeg sy'n efelychu'r CEFR.)
- Cynigir y bydd y deilliant ieithyddol hwn yn isafswm ar gyfer 2050, ac yn nod i'r holl ddysgwyr pa bynnag gategori ieithyddol yw eu hysgolion.
- Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i bob disgybl ddysgu'r Gymraeg. Yr allwedd ar gyfer dysgu iaith yw'r oriau cyswllt y mae'r dysgwr yn eu derbyn wrth ei dysgu a'i defnyddio, ynghyd â dysgu neu addysgu safonol ac arweinyddiaeth glir.
- Addysg cyfrwng Cymraeg sydd, ac fydd yn parhau, i roi'r cyfle gorau a'r llwybr cyflymaf i ddod yn siaradwr Cymraeg. O ganlyniad mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynigion yn y Papur hwn i gryfhau'r system ar gyfer cynllunio twf yn y nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac felly, y nifer y disgyblion sy'n eu mynychu.
- Ond er mwyn caniatáu i bob disgybl, ym mhob ysgol, ddod yn siaradwr

Cymraeg, ac i gau'r bwlch rhwng deilliannau ieithyddol yn ddibynnol ar gyfrwng yr addysg, cynigir yn y Papur i gynyddu dros amser y gofynion o ran cyfran o bob wythnos a gaiff ei neilltuo i ddarpariaeth Gymraeg yn ôl categori ieithyddol.

- Cred Llywodraeth Cymru fod gosod disgwyliadau rhesymol ond heriol sy'n cynyddu dros amser yn fodd cynaliadwy o gyrraedd y nod gan roi cyfle i gynllunio ddigwydd ar sawl agwedd allweddol yn gydamserol. Yn hollol greiddiol i hynny fydd cynllunio i gynyddu'r gweithlu Cymraeg yn y sector addysg.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Yn ddibynnol ar y Cabinet yn cymeradwyo'r ymateb atodol i'r ymgynghoriad, bwriedir anfon yr ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn 16 Mehefin 2023, sef dyddiad cau'r ymgynghoriad.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Barn y swyddogion statudol:

**Y Swyddog Monitro:**

*Mae Papur Gwyn yn cynnig cyfle i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth arfaethedig yn ei ddyddiau cynnar. O ystyried pwysigrwydd y maes dan sylw mae'n briodol fod y Cabinet yn cytuno ar safbwynt y Cyngor ar yr ymgynghoriad.*

**Pennaeth Cyllid:**

*Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.*